



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru Lewyrchus

- 1: Caffael teg a lleol:** defnyddio caffael i hybu twf cynhwysol
- 2: Gwaith teilwng:** sbarduno arferion sy'n caniatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhrychir drwy sicrhau gwaith gweddus
- 3: Economiâu lleol:** cynorthwyo economïau lleol cynhwysol a'r economi sylfaenol
- 4: Ynni cymunedol a chymdeithas garbon isel:** galluogi sefydliadau a chymunedau i leihau allyriadau a defnyddio ynni carbon isel
- 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol:** annog sefydliadau i ddatblygu poblogaeth fedrus, addas ar gyfer newidiadau technolegol y dyfodol





Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru Lewyrchus

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

*“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd), ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac sy’n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith gweddus”.*



## Diffinio'r nod

Mae 50 mlynedd wedi mynd heibio ers i Robert Kennedy draddodi ei anerchiad hanesyddol pan hawliodd fod Cynnyrch Domestig Gros yn mesur 'popeth heblaw'r hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw'.

Er gwaethaf hynny, mae Cynnyrch Domestig Gros wedi parhau i fod o'r pwys pennaf i'r cyhoedd a gwneuthurwyr polisi fel y dull critigol o fesur cynnydd. Tra bo'r ffocws traddodiadol hwn ar dwf economaidd wedi llunio'r byd yr ydym yn ei adnabod heddiw, mae wedi gadael llawer o bobl ar ôl. Mae 1% cyfoethocaf y byd yn berchen ar 45% o gyfoeth y byd, tra bo bron i chwarter y bobl yma yng Nghymru'n byw mewn tlogi. Wrth i'r economi ehangu, felly hefyd y galw am yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu ar gyfer hyn. Mae cenedlaethau'r dyfodol mewn perygl o fyw mewn byd o anghydraddoldeb llwm a banc adnoddau naturiol gwag.

Yr hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw yw na fedrwyd chi ddod o hyd i unrhyw son am Werth Ychwanegol Gros (GYC) neu Gynnyrch Domestig Gros yn niffiniad Cymreig o ffyniant; mae ein

gweledigaeth ni o ffyniant yn mesur yr hyn sydd o bwys. O fewn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nid yw llesiant economaidd yn cael blaenoriaeth dros lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, neu ddiwylliannol. Ein nod o Gymru lewyrchus yw un lle mae pobl yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a darganfod gwaith gweddus, lle rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd deg a lleol, lle mae'r economi sylfaenol yn cynhyrchu cyfoeth a chyflogaeth leol, a lle'r ydym yn symud tuag at gymdeithas garbon isel.



### Astudiaethau achos

Drwy'r holl ddogfen hon byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os byddwch yn gweld y symbol hwn.



## Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

**Caffael nwyddau a gwasanaethau mewn dulliau sy'n cynorthwyo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 1: Caffael Teg a Lleol](#))

**Cynorthwyo arferion gwaith teg drwy gyflogaeth a gwasanaethau** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 2: Gwaith gweddus](#))

**Cefnogi'r economi sylfaenol drwy gynhyrchu cyfoeth a darparu cyflogaeth** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 3: Economïau Lleol](#))

**Galluogi cymdeithas garbon isel drwy gynorthwyo ynni cymunedol a lleihau allyriadau** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 4: Cynhyrchu Ynni Cymunedol](#))

**Gweithio gydag eraill i gynorthwyo datblygiad sgiliau ar gyfer y dyfodol** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol](#))

**Cefnogi arloesedd i ddatblygu economi addas ar gyfer y dyfodol** ([Pwnc taith ar arloesedd i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

**Defnyddio adnoddau'n effeithlon, cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang** ([Pwnc taith ar economi cylchol i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

## Gofynion statudol eraill sy'n berthnasol i'r nod hwn

**Mae caffael cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r fframwaith cyfreithiol a osodwyd gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.** Mae'r rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau sy'n contractio i ystyried ymgorffori agweddau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol mewn manylebau, amodau contract a meini prawf dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn yr amgylchedd, effeithlonrwydd ynni, brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, hybu arloesedd, a chyflogaeth a chynhwysedd cymdeithasol.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn:

- [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.](#)
- [Arweiniad ar agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol.](#)

Mae'r rheoliadau contractau cyhoeddus canlynol yn arbennig o berthnasol i'r pwnc caffael teg a lleol:

- **Mae Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn (rheoliadau 74 i 77):** yn cynnig i gomisiynwyr sydd eisiau maxsimeiddio manteision lleol caffael i deilwra'r modd y maent yn gweithredu'r broses gaffael ar gyfer rhai gwasanaethau, er mwyn diwallu anghenion darparwyr lleol.
- **Mae Contractau neilltuedig (Rheoliad 77):** wedi eu dylunio i helpu sefydliadau'r trydydd sector i sefydlu eu hunain a chystadlu i ddarparu gwasanaethau ag iddynt ddimensiwn iechyd, cymdeithasol, addysgol neu ddiwylliannol.
- **Contractau neilltuedig 20 – (1)** Gall awdurdodau contractio (a) gadw'r hawl i gyfranogi mewn gweithdrefnau caffael cyhoeddus weithdai gwarchodol a gweithredwyr economaidd â'u bryd ar integreiddio'n gymdeithasol a phroffesiynol bobl anabl a phobl o dan anfantais, neu (b) drefnu i'r fath gontractau gael eu perfformio yng nghyd-destun rhaglenni cyflogaeth warchodol, ar yr amod bod o leiaf 30% o weithwyr, gweithredwyr economaidd neu

raglenni'r gweithdai hynny yn weithwyr anabl neu'n rhai o dan anfantais.

- **Rheoliad 40 (1):** Cyn cychwyn gweithdrefn gaffael, gall awdurdodau sy'n contractio gynnal ymgynghoriad marchnad gyda'r bwriad o baratoi'r caffael a rhoi gwybod i weithredwyr economaidd am eu cynlluniau a'u gofynion caffael.
- **Rheoliad 40 (3):** 'Gellir defnyddio'r fath gyngor wrth gynllunio ac arwain y weithdrefn gaffael...'
- **Ennyn ymgyfraniad defnyddwyr gwasanaethau: Rheoliad 76 (8)** '...gall awdurdodau contractio gadw mewn golwg unrhyw ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys '...anghenion penodol categorïau gwahanol o ddefnyddwyr; (ac) ennyn ymgyfraniad defnyddwyr a'u grymuso.'




Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'.

## Galluogwyr

Bydd gwireddu'r nod yn **fwy tebygol o ddigwydd...**


- Pan fydd cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn contractau'n cael eu monitro – er enghraifft manteision cymunedol.
- Pan ofynnir i fusnesau adrodd ar effeithiau ehangach, yn hytrach nag allbynnau a chanlyniadau rhifiadol yn unig.
- Pan fydd yna ymgysylltu ystyrlon busnesau lleol yn natblygiad cynlluniau economaidd lleol.
- Pan fydd yna amgylchedd polisi sy'n cynorthwyo economi sylfaenol ac ymagweddau carbon isel i ddod yn rhan o'r brif ffrwd.
- Pan fydd datblygu gweithluoedd medrus, amlddisgyblaethol yn flaenoriaeth ym mhob sefydliad.



## Analluogwyr

Bydd gwireddu'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd...**

- **Pan ganfyddir bod twf economaidd yn ymwneud yn unig â Chynnyrch Domestig Gros neu Werth Ychwanegol Gros.**
- **Pan fydd sefydliadau'n gweithio mewn seilos, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer ymagweddau cydgysylltiedig a meddylfryd arloesol.**
- **Pan fydd adnoddau naturiol yn cael eu masnachu a'u gwerthu, heb ystyried effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.**
- **Pan fydd technoleg carbon isel yn cael ei weld fel rhywbeth costus sy'n creu risg uchel.**
- **Pan fydd sefydliadau'n methu annog diwylliant o waith gweddus, er enghraifft drwy fynd i'r afael â bylchau cyflog rhwng y rhywiau neu gontractau dim-oriau.**





Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru Lewyrchus

## 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol

Annog sefydliadau i ddatblygu poblogaeth fedrus, addas ar gyfer newid technolegol yn y dyfodol

Gyda diolch i'r Athro Calvin Jones o Ysgol Fusnes Caerdydd, a ymchwiliodd ac a baratôdd y pwnc hwn mewn cydweithrediad â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.



## Diffinio'r mater

Mae ymchwil gan Ysgol Fusnes Caerdydd ar greu sgiliau addas ar gyfer y dyfodol wedi amlinellu nifer o ddulliau ar gyfer sbarduno newid yn cynnwys:

- Bydd cyfran arwyddocaol o dasgau a swyddi'n cael eu hailstrwythuro'n barhaus fel canlyniad i newid technolegol. Y tasgau a'r swyddi sydd yn y perygl mwyaf yw'r rhai ailadroddus a seiliedig ar broses, yn arbennig rolau 'coler wen'.
- Bydd cyflawni gwasanaethau'n dibynnu'n fwy ac yn fwy ar 'y cwmwl', a fydd mae'n debyg yn cael ei gyflwyno gan nifer bach o lwyfannau byd-eang. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn disgwyl i'w gwasanaethau cyhoeddus gael eu darparu'n ddigidol ynghyd â mynediad digidol i'w gwasanaethau cyhoeddus i gyd-fynd â gwasanaethau preifat.

- Un canlyniad posibl a ddaw yn sgil awtomatiaeth yw llawer llai o ymgyfraniad pobl mewn cynhyrchu economaidd a dosbarthu.
- Bydd creadigrwydd a datrys problemau mewn cyd-destunau cymhleth yn dal i gael eu gweithredu gan bobl am dipyn o amser, ac felly, byddant yn sgiliau a ddaw yn fwyfwy gwerthfawr.
- Bydd cynnydd mewn technoleg o bosib yn anfanteisiol i leoedd sydd eisoes yn amddifad yn economaidd a gall y bydd iddynt oblygiadau rhywedd cryf, yn cynnwys y posibilrwydd o 'argyfwng gofal'.

Mae'r 'Adolygiad o Arloesi Digidol (2019)', o dan arweinyddiaeth yr Athro Phil Brown ar ran Llywodraeth Cymru, yn disgrifio arloesedd digidol

fel rhywbeth a fydd yn creu newid sylweddol yng Nghymru. Darganfu'r adolygiad y bydd technoleg ddigidol yn arwain at ddadleoli swyddi a chreu swyddi, felly amcan polisi allweddol yw paratoi drwy ailsgilio'r gweithlu.

Gwelir creadigrwydd, deallusrwydd emosïynol a datrys problemau fel rhai o'r sgiliau pwysicaf ar gyfer y dyfodol, o gofio bod y sgiliau hyn ar hyn o bryd yn ddynol ac anodd eu hawtomeiddio ([Pearson a Nesta 2017](#), [Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru 2018](#)). Yr her yw ein bod yn gosod gwerth ar gymwysterau, yn hytrach nag ar y sgiliau angenrheidiol, o fewn systemau addysg a hyfforddiant. Ond, gyda'r cynnydd mewn arloesedd digidol, mae'n debygol y bydd cymwysterau'n dod yn llai pwysig – ymddygiadau, sgiliau meddal ac ymagweddau yw'r pethau hanfodol y gall pobl eu cyflawni yn well na technoleg. Mae arweinwyr busnes eisoes yn chwilio am y setiau sgiliau hyn ar gyfer eu gweithlu yn awr ([Prince's Trust 2017](#), [CBI 2018](#)). Mae [adroddiad IPPR](#) yn nodi bod y newidiadau hyn yn debygol o 'gael effaith arwyddocaol ar Gymru' ac ni fyddant yn effeithio ar bawb i'r un graddau. Mae eu dadansoddiad yn awgrymu y bydd cyfran uwch o fenywod yn cael eu heffeithio na dynion, gyda 65% o'r swyddi sydd yn y perygl mwyaf o gael eu hawtomeiddio'n cael eu perfformio gan fenywod.

### Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



**Taith tuag at Gymru fwy cyfartal**  
**Pwnc 1: Gwaith teg**



**Taith tuag at Gymru fwy cyfartal**  
**Pwnc 3: Cyfranogiad**

## Gwneud **Newidiadau** Syml

**Cynhaliwch** archwiliadau sgiliau a chymwysterau gweithlu'n rheolaidd.

**Mapiwch** wasanaethau i'ch sefydliad sydd ar hyn o bryd yn cael eu darparu gan asiantaethau allanol.

**Gwnewch asesiad** o ymgysylltu digidol tebygol yn y dyfodol ymhlith pobl sy'n defnyddio neu a fydd yn defnyddio eich gwasanaethau.

**Deallwch y rhwystrau** i ddysgu sgiliau newydd gan ddemograffeg a nodweddion eraill y boblogaeth.

**Crëwch** lwyfannau neu sianeli swyddogaethol ar gyfer deialog a chyfnewid gwybodaeth rhwng rheolwyr a'r staff.

**Sicrhewch fod gan reolwyr** berthynas gref a chadarnhaol â staff a'u cynrychiolwyr.

**Rhowch greadigrwydd**, datrys problemau a defnyddio'r pum dull o weithio mewn disgrifiadau swyddi a phrosesau cais.

E.e. Mae **Cyngor Sir Fynwy'n** cynnwys meini prawf o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol mewn Disgrifiadau Swyddi.

**Sicrhewch fod staff** yn deall y rhwystrau a'r cyfleoedd i rith-ddarparu swyddi neu weithio o bell, ac am rith-gyflawni eu rolau neu weithio o bell.

**Galluogwch eich staff** i weithio o bell, yn cynnwys canolfannau gwaith, megis [IndyCube](#). Mae hyn yn helpu i gadw gwariant a chyfoeth yn y gymuned.

**Drwy asesiadau llesiant** a gwaith arall, deallwch y berthynas rhwng yr amodau economaidd o fewn yr ardal a wasanaethir gennych a'r galw am wasanaethau.

**Datblygwch** well dealltwriaeth o'ch gweithlu drwy gynnal dadansoddiad cyflogaeth o safbwynt rhyw, oed, hil ac anabledd ac archwiliwch hyn yn ôl rolau swyddi, graddau, math o gontract ac oriau gwaith.

ee

## Bod Yn Fwy Anturus

**Defnyddiwch offer rhagweld y dyfodol**, megis ymagwedd [Three Horizons](#), i ymgymryd â dadansoddiadau o fylchau mewn sgiliau - gan nodi goblygiadau tymor byr a hirdymor ar gyfer eich staff.

**Galluogwch staff** i ddysgu i ffwrdd o'r swyddfa.

**Darparwch hyfforddiant** i staff cyfredol a recriwtiwch staff newydd â'r gallu i ddarparu datrysiadau technolegol.

**Cydweithiwch** gyda sefydliadau eraill i ystyried cyflwyniad, darpariaeth a chynnwys gwasanaethau digidol.

**Aseswch yn gyson** botensial ar gyfer newid technolegol.

**Teimlwch yn gyfforddus** ynglŷn â gwaredu rhai systemau sefydledig.

**Sefydlwch fecanweithiau** sy'n galluogi'ch staff i gyfnewid gwybodaeth ddealedig, a fydd yn helpu i gynllunio'r gweithlu a chynllunio olyniaeth iddynt hwy eu hunain a'r sefydliad.

**Hyfforddwch** staff i ddefnyddio'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf i'w helpu i gynllunio o gwmpas gweithlu'r dyfodol.

**Darganfyddwch ddulliau o** wobrwyo creadigrwydd ac addasrwydd drwy recriwtio a chynllunio'r gweithlu.

**Ystyriwch sut** y gallwch gynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau yn unol ag anghenion busnes lleol, sectorau twf a sectorau sylfaenol. Sicrhewch fod hyn yn cynnwys swyddi creadigol a sgiliau, a'r rhai hynny yn yr economi sylfaenol lleol.

E.e. **Llwybr Cyflogaeth Rhondda Cynon Taf**, sy'n cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau yn unol â'r sectorau twf ac anghenion cyflogwyr lleol, a darparu cyfleoedd yn cynnwys cynllunio ar gyfer prentisiaid a graddedigion, profiad gwaith a lleoliadau ar wahanol lefelau yn cynnwys interniaethau prifysgol, a darparu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n gadael Gofal y Cyngor drwy'r rhaglenni (Gofal i waith' a 'Cam i'r Cyfeiriad Cywir'.

## Bod Yn Fwy Anturus



**Gweithredwch** y polisi 'gweithio ar unrhyw adeg o unrhyw le' gan alluogi staff i weithio gyda sicrwydd ac yn hawdd o unrhyw le.



E.e. Mae gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru bolisi 'gweithio ar unrhyw adeg o unrhyw le'.



**Buddsoddwch mewn** uwchraddio i offer TG a hyfforddi i staff i'w galluogi i weithio o bell ac mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill â systemau tebyg.



**Datblygwch gyfleoedd** i uwch staff gymryd rhan mewn cyfleoedd cysgodi neu gael eu tywys o amgylch eich gwasanaethau er mwyn datblygu empathi gyda phobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau, a nodi lle gellir gwneud gwelliannau.



E.e. Mae **Llywodraeth Cymru'n** cynnig i staff Leoliadau Profiad Tymor Byr (STEP) i adeiladu sgiliau a gwybodaeth am sefydliadau eraill.



**Casglwch well gwybodaeth** o'ch gweithlu, gan archwilio yn ôl rolau swyddi, graddau, math o contract ac oriau gwaith, a defnyddiwch hyn i gwestiynu eich canfyddiadau am y math o rolau a gynigir. Er enghraifft, ystyriwch a yw menywod yn dewis gwaith rhan amser neu contractau dros dro oherwydd mai dyna'r unig swyddi sy'n cael eu cynnig.

## Perchnogi'r **Uchelgais**

### Gweithredu cenedlaethol a chydweithredol

#### Dylai polisi cenedlaethol annog

ymagwedd dysgu gydol oes tuag at sgiliau, mabwysiadu ymagwedd debyg tuag at addysg ôl-16 megis y diwygiad ac adolygiad diweddar o'r cwricwlwm. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o'r modd y mae ennill sgiliau (yn hytrach na chymwysterau yn unig) yn cael ei wobrwyo o fewn addysg, hyfforddiant a'r gweithle.

#### Gweithiwch mewn partneriaeth

i brofi a chrosawu technolegau blaengar i ddod yn fwy effeithiol heb gyfaddawdi llesiant staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth.

### Gweithredu sefydliadol

Dod yn **sefydliad sy'n dysgu** drwy ddarparu a hybu'n egniol ddysgu gydol oes.

**Gosod y pwyslais** ar ddysgu addasedig, yn hytrach na phrosesau achrededig.

Dod yn **sefydliad cadarn** gyda staff sydd wedi gwella'u sgiliau lle mae hynny'n briodol ar gyfer cyflawni datrysiadau technolegol 'yn fewnol'.

**Sicrhewch fod staff** yn gallu ymgysylltu â chyflenwyr mewn dull gwybodus a bod ganddynt wybodaeth a hyder pan fyddant yn caffael gwasanaethau allweddol.

Dewch yn **sefydliad cynhwysol**, gan ennyn yn egniol ymgyfraniad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eich staff a'r amrywiaeth o bobl sy'n darparu gwasanaethau a gwerthuso.

Dewch yn **sefydliad hyblyg** drwy sicrhau bod eich holl contractau staff yn cynnig gweithio hyblyg yn ddiodyn, gydag achos yn dod yn ofynnol os nad yw hynny'n hyfyw.

E.e. Mae Oxfam Cymru wedi dewis gweithio hyblyg.  
<https://youtu.be/YfIHEjzbuBg>

## Perchnogi'r Uchelgais

Dewch yn **sefydliad creadigol** - hunan ymwybodol ac agored i syniadau newydd am y modd yr ydych yn cyflawni eich cyfrifoldebau.

**Anogwch arloesedd** a diwylliant i gyflogeion lle mae'n ddiogel i 'geisio a methu'. Ceisiwch gael arferion yn eu lle sy'n annog syniadau newydd a dulliau newydd o wneud pethau, nad yw'n bwrw bai ar neb pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Dewch yn **sefydliad datganoledig** sy'n cynnig gwasanaethau ac sy'n rhyngweithredu gyda phobl i eithaf eich gallu ar draws rhith-ofod.

Dewch yn sefydliad **ymwybodol o gyd-destun ac un sy'n ymatebol** gyda dealltwriaeth soffistigedig o'r modd y mae tueddiadau economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar y galw am wasanaethau.

**Gwnewch ddata** dadelfenedig am eich cymunedau'n hygyrch i'ch cymunedau, i helpu i adeiladu darlun o brofiadau gwahanol grwpiau ar draws Cymru a chynorthwyo craffu mwy effeithiol ac asesiad o wasanaethau a gyflwynir yn lleol.

**Dewch yn sefydliad ymwybodol** o ofalu lle mae cytbwysedd bywyd-gwaith yn cael ei adeiladu i mewn i'r 'DNA' sefydliadol.

**Crëwch ysgolion** swydd y gellid eu dringo mewn meysydd lle nad oes llawer o gyfle i symud ymlaen, yn cynnwys cyflwyno cyfnewid swyddi i helpu pobl i ennill sgiliau newydd.

E.e. Edrychodd [rhaglen Menywod yn ychwanegu gwerth at yr economi a ariannwyd gan ESF \(WAVE, 2015\)](#) ar gynnydd llorweddol ac amrywio sgiliau. Mewn meysydd o rolau gwasanaethau generig hyblyg, roedd rolau yn awr yn cael eu cylchdroi yn rheolaidd rhwng aelodau tîm (tudalen 21).

## Enghreifftiau ac adnoddau eraill

- **Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol** [Which occupations are at highest risk of being automated?](#)
- **Y Sefydliad ar gyfer Cydweithredu a Datblygiad Economaidd (OECD)** - [The Risk of Automation for Jobs in OECD Countries](#)
- **Science Direct** - [The future of employment: How susceptible are jobs to computerisation?](#)
- **Fforwm Economaidd y Byd** - [The future is automated. Here's how we can prepare for it](#)
- **Harvard Business Review** - [Artificial Intelligence for the Real World](#)
- **Uned Ymchwil Economi Cymru** [Automation and AI – Impacts on Wales](#)
- **Busnes Cymru** - [Business Wales Skills Gateway](#)
- **Llywodraeth y DU** - [Cloud First Policy](#)
- **Jones et al.** [Risks and rewards of cloud computing in the UK public sector: A reflection on three Organisational case studies](#)
- **McKinsey** [Selecting the right platform for IT automation](#)
- **ONS** [Exploring the UK's digital divide](#)
- **Yr Uned Ymchwil i Economi Cymru** [Digital technologies and future opportunities for rural businesses and areas in Wales](#)
- **Sgwrs TED Max Tegmark** [How to get empowered, not overpowered by AI](#)
- **Harvard Business Review** [Preparing your workforce for the automation age](#)
- **Locke et al.** [Unleash creativity and innovation](#)
- **Henderson a Jones** [Broadband and Uneven Spatial Development: The Case of Cardiff City-Region](#)
- **Yr Athro Calvin Jones** [The rise of the robots in Wales](#)